ATODLEN 1

CYNLLUN PENSIWN NEWYDD Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU)

# RHAN 7

## PERSONAU WRTH GEFN

### Dehongli Rhan 7

**1.** Yn y Rhan hon—

ystyr "anaf cymhwysol" ("*qualifying injury*") yw anaf, a gafwyd gan berson wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel diffoddwr tân, a hwnnw'n anaf nad oedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf oherwydd esgeulustod neu gamymddygiad difrifol a beius y person ei hun;

ystyr "cyfnod yn y lluoedd" ("*forces period*") yw'r cyfnod y bydd person yn ymgymryd â gwasanaeth perthnasol ynddo yn y lluoedd wrth gefn;

ystyr "cyn awdurdod" ("*former authority*"), mewn perthynas â pherson wrth gefn, yw'r awdurdod y cyflogwyd y person wrth gefn ganddo yn union cyn i'w gyfnod yn y lluoedd ddechrau;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Lluoedd wrth Gefn 1996(**1**);

ystyr "gwasanaeth perthnasol yn y lluoedd wrth gefn" ("*relevant service in the reserve forces*") yw gwasanaeth yn y lluoedd a bennir yn adran 1(2) o Ddeddf 1996—

(a) yn unol â rhwymedigaeth hyfforddi o dan Ran 3 o'r Ddeddf honno, neu

(b) yn rhinwedd galwad i gyflawni gwasanaeth parhaol neu adalwad o dan Ddeddf Lluoedd wrth Gefn 1980(**2**) neu Ran 7 o Ddeddf 1996; ac

ystyr "person wrth gefn" ("*reservist*") yw person a oedd, yn union cyn cyfnod yn y lluoedd, yn ddiffoddwr tân.

(**1**) 1996 p.14.
(**2**) 1980 p. 9.